

Appendix D

Planning Permission C13/0542/22/LL



DYBLYGEB/DUPLICATE

I/TO:
SLR Consulting Ltd
8, Parker Court
Staffordshire Technology Park
Beaconside
Stafford

Ymgeisydd/Applicant:
D.AND . E. JONES
GLASLYN
NANTLLE
CAERNARFON
GWYNEDD
LL55 1AE

(DECILAC)

Cais Rhif:

C11/1139/22/MW

Cofrestrwyd: 13/12/2011

Application Number:

Registered:

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990
TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

**GORCHYMYN (DATBLYGU YN GYFFREDINOL A GANIATEIR) CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1995
THE TOWN AND COUNTRY PLANNING (GENERAL PERMITTED DEVELOPMENT) ORDER 1995**

**GORCHYMYN (TREFNIADAETH DATBLYGU CYFFREDINOL) CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1995
THE TOWN AND COUNTRY PLANNING (GENERAL DEVELOPMENT PROCEDURE) ORDER 1995**

Mae'r Cyngor a enwir uchod, yr Awdurdod Cynllunio Lleol, trwy hyn yn **CANIATAU** y datblygiad a geisiwyd gennych, sef:

*The above named Council being the Local Planning Authority **HEREBY PERMIT** the development proposed by you, namely:*

Bwriad/Proposal	AILGYCHWYN CLODDIO LLECHI PRIMAIDD O HEN CHWAREL DDWYREINIOL / RESUMPTION OF PRIMARY EXTRACTION OF SLATE FROM OLD EAST QUARRY
Lleoliad/Location	CHWAREL TY MAWR GORLLEWIN / TY MAWR WEST SLATE QUARRY, LLANLLYFNI, CAERNARFON, GWYNEDD, LL54 6BD

yn unol â'r cais a'r cynlluniau a benderfynwyd ar 13/06/2012 yn ddarostyngedig i'r amod(au) a nodir trosodd:

in accordance with the application and plans decided on 13/06/2012 subject to the condition(s) specified over :

RHEOLWR RHEOLAETH DATBLYGU / DEVELOPMENT MANAGEMENT MANAGER
ar ran Pennaeth Adran Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)
on behalf of the Head of Regulatory Department (Planning, Transportation and Public Protection)

Dyddiad/Date 13/06/2012

**MAE'N BWYSIG EICH BOD YN DARLLEN Y NODIADAU ATODOL
IT IS IMPORTANT THAT YOU SHOULD READ THE ATTACHED NOTES**

Cais Rhif:

C11/1139/22/MW

Tudalen/Page:1

Application Number:

**Pwysig: Cymerwch sylw**

Mae Cyngor Gwynedd yn monitro datblygiadau i sicrhau cydymffurfiaeth gydag amodau cynllunio. Gall peidio cydymffurfio ag amodau neu newidiadau heb ganiatâd i'r cynlluniau a ganiatawyd, wneud y caniatâd yn annilys. Os nad ydych yn siŵr cysylltwch â'r Awdurdod Cynllunio Lleol am gyngor.

Important: Take note

Gwynedd Council monitors developments to ensure compliance with planning conditions. Non compliance with conditions or unauthorised variations to the approved plans could invalidate the consent hereby approved. If in doubt please contact the Local Planning Authority for advice.

Amodau/Conditions:

1. Rhaid i'r ennill a gweithio mwynau a gweithgareddau ategol ddod i ben erbyn 31/12/2021. Rhaid clirio erbyn y dyddiad hwnnw pob offer neu beiriannau a ffyrdd gludo sy'n berthynol, neu a godwyd o ganlyniad i'r caniatâd hwn. Rhaid cwblhau gwaith adfer y safle erbyn 31/12/2023.

The winning and working of minerals and ancillary operations shall cease by 31/12/2021. All plant machinery and haul roads related to or sited as a consequence of this planning permission shall be removed by that date. Restoration of the site shall be completed by 31/12/2023.

2. Oni bai fod amod cynllunio yn gofyn am hynny, rhaid i'r datblygiad gael ei wneud yn hollol unol â manylion y cais, datganiad cefnogol a gwybodaeth cefndirol derbyniwyd ar 13eg Rhagfyr 2011, a chynlluniau diwygiedig, strategaeth adfer a trawstoriadau rhif; 'Dwg No. 2720 MA Rev C', 'Drawing No. 10-312-D-005 Revision A', 'TMW02 Revision A', 'TMW-REST1-A Revision A', 'TMW-REST2-A Revision A', 'TMW-REST3-A Revision A,' derbyniwyd ar 25ain Ebrill 2012, ac unrhyw fanylion eraill a gymeradwywyd wedi hynny mewn ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio mwynau.

Unless otherwise required by planning condition, the development shall be carried out only in accordance with the application details, supporting statement and supporting information received on 13th December 2011, and amended plans, restoration strategy & cross sections numbered; 'Dwg No. 2720 MA Rev C', 'Drawing No. 10-312-D-005 Revision A', 'TMW02 Revision A', 'TMW-REST1-A Revision A', 'TMW-REST2-A Revision A', 'TMW-REST3-A Revision A,' received on 25th April 2012, and such other details as may subsequently be approved in writing by the mineral planning authority.

3. Ni chaniateir dod â phridd, isbridd na deunyddiau gwastraff o unrhyw fath i'r safle na chael gwared ag ef yno. Ni chaniateir dod ag offer na pheiriannau, cerbydau, cyfarpar na deunyddiau, nad oes eu hangen yn uniongyrchol i bwrpas y gwaith a wneir dan y caniatâd hwn, ar y safle na'u storio yno.

No soils, sub-soils or waste materials of any description shall be brought into or disposed of within the site. No plant, machinery, vehicles, equipment or materials not directly required for the purposes of operations undertaken under this planning permission shall be brought into or stored on the site.

4. Rhaid cyfyngu gwaith ar gyfer ennill a gweithio mwynau i ddulliau mecanyddol o gloddio yn unol â'r fethodoleg amlinellwyd yn y datganiad cefnogol.

Operations involving winning and working of minerals shall be restricted to mechanical means of extraction in accordance with the methodology outlined in the supporting statement.

**MAE'N BWYSIG EICH BOD YN DARLLEN Y NODIADAU ATODOL
IT IS IMPORTANT THAT YOU SHOULD READ THE ATTACHED NOTES**



5. Cyn dechrau ar y datblygiad a ganiateir yma rhaid nodi ffin y safle ac ardaloedd cloddio mwynau wrth fodd yr awdurdod cynllunio mwynau ac mewn modd a fydd yn parhau am gyfnod y caniatâd cynllunio.

Before the development hereby permitted is commenced the boundary of the site & mineral extraction zones shall be marked out to the satisfaction of the mineral planning authority in a manner sufficient to last for the duration of the planning permission.

6. Ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio mwynau, ni chaniateir unrhyw waith a awdurdodwyd neu sydd yn ofynnol gan y caniatâd hwn, gan gynnwys rhedeg peiriannau, rhwng 07:30 a 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener ac 08:30 ac 13:00 ar ddydd Sadwrn. Ni chaniateir unrhyw waith ar y Sul nac ar Wyliau Cyhoeddus. Ni fydd yr amod hwn yn rhwystro gwneud gwaith cynnal a chadw hanfodol ar offer neu beiriannau a ddefnyddir ar y safle nac unrhyw waith i gynnal amodau diogelwch.

Except with the prior written agreement of the mineral planning authority, no operations authorised or required by this permission, including the operation of plant, shall be carried out other than between the hours of 07.30 to 17.00 Monday to Friday and 08.30 to 13.00 on Saturday. No such operations shall be carried out on Sundays or Bank Holidays. This condition shall not operate so as to prevent the carrying out of essential maintenance to the plant and machinery used on the site or the maintenance of safe working conditions.

7. Er amod '10' ynghlwm i ganiatâd cynllunio C09A/0046/22/MW, ni chaniateir symud mwy na chyfanswm o 30,000 tonnelli o ddeunydd y flwyddyn o'r safle ar hyd y ffordd a dim mwy na 300 tonnelli y diwrnod. Rhaid gofalu y bydd ffigyrau allbwn o'r safle dros unrhyw gyfnod penodol ar gael i'r awdurdod cynllunio mwynau, ar gais, o fewn 21 diwrnod o ddiwrnod y cais.

Notwithstanding condition '10' attached to planning permission C09A/0046/22/MW, no more than 30,000 tonnes per annum in aggregate at a maximum rate of 300 tonnes per day shall be removed by road from the site. Figures of the output from the site over any specified period shall be made available to the mineral planning authority within 21 days of request.

8. Rhaid defnyddio'r mynediad cerbydau presennol drwy Chwarel Ddwyrain Ty Mawr drwy gydol oes y datblygiad a ganiateir drwy hyn ac ni chaniateir defnyddio unrhyw fynedfa gerbydau arall i'r safle.

Vehicular access to the site shall be via the existing access to Ty Mawr East Quarry for the duration of the development hereby approved and no other means of vehicular access to the site shall be used.

9. Ni chaniateir unrhyw waith ar y safle fydd yn achosi codi llwch a rhaid dyfrio pob ardal lle bydd cerbydau olwyn yn teithio arnynt wrth symud defnyddiau, neu eu trin pryd bynnag fydd angen i arbed codi llwch o'r fath.

No operations on the site shall be undertaken in such a manner as to cause the raising of fugitive dust and all areas traversed by wheeled vehicles or within which the handling or movement of material is undertaken shall be watered or otherwise treated at such times and intervals as may be necessary to prevent the raising of such dust.

MAE'N BWYSIG EICH BOD YN DARLLEN Y NODIADAU ATODOL
IT IS IMPORTANT THAT YOU SHOULD READ THE ATTACHED NOTES



10. Ni ddylai lefel y sw^n yn sgil y datblygiad fod yn uwch na 40dB L Aeq, 5 munud, lefel sw^n cefndir mewn unrhyw eiddo'n bodoli eisoes sy'n sensitif i sw^n.

The noise level arising from the development shall not exceed 40 dB LAeq, 5 minutes, free field at any existing noise sensitive property.

11. Rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw i'r awdurdod cynllunio mwynau am unrhyw waith dros dro all fod yn uwch na'r lefelau a nodir yn amod 10. Ni ddylai sw^n o waith dros dro fod yn uwch na 70 dB L Aeq, lawr sw^n cefndir a fynegir yn yr un dull ac yn amod 10 mewn unrhyw eiddo sy'n sensitif i sw^n ac ni ddylai barhau am fwy nag 8 wythnos mewn unrhyw gyfnod 12 mis heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol yr awdurdod cynllunio mwynau. Ni ddylid gwneud gwaith dros dro cyn 07.30 ac ar ôl 17.00 o'r gloch ac eithrio mewn argyfwng, a dylid hysbysu'r awdurdod cynllunio mwynau yn ysgrifenedig am yr achosion hyn.

The mineral planning authority shall be notified in writing in advance of any temporary operations which may exceed the levels set out in condition 10. Temporary operations shall not exceed 70 dB LAeq, 1 hr free field expressed in the same manner as in condition 10 at any noise sensitive property, and shall not be carried out for longer than a total of 8 weeks in any 12 month period without the prior written approval of the mineral planning authority. Temporary operations shall not be carried out outside the hours of 07.30 to 17.00 except in cases of emergency, which cases shall be notified in writing to the mineral planning authority.

12. Rhaid cynnal a chadw pob peiriant ac offer fydd yn gweithio ar y safle mewn modd fydd yn cyfyngu ar uchafswm lefelau sw^n i'r rhai a nodir ym manylebau'r gwneuthurwyr. Ni chaniateir defnyddio unrhyw gerbyd gyda larymau sw^n wrth facio'n heb ganiatâd blaenorol ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio mwynau.

All vehicles, plant and machinery operated within the site shall be maintained in such a manner as to restrict maximum noise emission levels to those set out in the manufacturer's specification. No vehicles equipped with audible reversing alarms shall be operated on the site without the prior written approval of the mineral planning authority.

13. Ni chaniateir defnyddio peiriannau nac offer yn y safle onid oes arnynt sgriniau, caeadau a thawelyddion i ladd sw^n.

No plant, machinery or equipment shall be operated at the site unless fitted with appropriate sound deadening screens, casework, enclosures and silencers.

14. Oni chytunir fel arall mewn ysgrifen, o fewn pum mlynedd o ddyddiad cychwyn gweithredu'r caniatâd cynllunio hwn, rhaid i'r ymgymwrwr gyflwyno er cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio mwynau, adolygiad ffurfiol o'r gweithgareddau a wneir ar y safle. Bydd pob adolygiad yn ddatganiad ysgrifenedig ac yn cynnwys cynlluniau priodol fydd yn dangos;
- i) manau lle gwnaed gwaith cloddio ac adfer / ôl-ofal ers yr adolygiad diwethaf [neu yn achos yr adolygiad cyntaf, dyddiad gweithredu'r caniatâd cynllunio];
 - ii) manau lle bwriedir gwneud gwaith cloddio a gwaith adfer / ôl-ofal yn ystod y flwyddyn i

MAE'N BWYSIG EICH BOD YN DARLLEN Y NODIADAU ATODOL
IT IS IMPORTANT THAT YOU SHOULD READ THE ATTACHED NOTES



- ddod,
iii) Creu cynefin bywyd gwyllt

Unless otherwise agreed in writing, within five years of the date of implementation of this planning permission, the operator shall submit for the approval of the mineral planning authority a formal review of operations which are being undertaken at the site. Each review shall be in the form of a written statement and appropriate plans which shall indicate;

- i) areas in which extractive operations and restoration/aftercare works have taken place since the last review, [or in the case of the first review, the date of implementation of planning permission];
- ii) areas where it is proposed that the extractive operations and the carrying out of restoration/aftercare works will be carried out over the forthcoming year,
- iii) Wildlife habitat creation.

15. Er darpariaethau Gorchymyn Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, fel y 'i diwygiwyd, ni chaniateir gweithredu dim yn Erthygl 3 neu ail Atodlen y Gorchymyn hwnnw mewn modd fyddai'n caniatáu o fewn yr ardal y rhoddwyd y caniatâd hwn ar ei gyfer unrhyw ddatblygiad a nodir yn Nosbarthau A a B rhan 19 o'r Ail Atodlen i'r Gorchymyn ac ni chaniateir gwneud unrhyw ddatblygiad o'r fath ar unrhyw adeg o fewn yr ardal heb ganiatâd penodol gan yr awdurdod cynllunio mwynau.

Notwithstanding the provisions of the Town and Country Planning (General Permitted Development) Order 1995, as amended, nothing in Article 3 of, or the second Schedule to, that Order shall operate so as to permit within the area the subject of this permission any development specified in Classes A and B of part 19 of the Second Schedule to the Order and no such development shall be carried out at any time within that area without the express grant of permission by the mineral planning authority.

16. Oni chytunwyd fel arall yn ysgrifenedig rhaid cyflwyno er cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio mwynau o fewn 12 mis i'r dyddiad yma, atodlen plannu coed a llwyni manwl sydd i'w weithredu wedi hynny yn unol â gofynion amod 17.

Unless otherwise agreed in writing, a detailed schedule of tree and shrubplanting shall be submitted for the approval of the mineral planning authority within 12 months of the date hereof, and shall thereafter be implemented in accordance with the requirements of condition 17.

17. Rhaid adfer y safle'n raddol. O fewn tair mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn neu pe derfydd y gwaith a ganiateir drwy hyn yn barhaol, p'run bynnag sy'n gynharach, rhaid cychwyn ar y gwaith i adfer y tir i foddhad yr awdurdod cynllunio mwynau. Bydd y gwaith adfer yn cynnwys:
- i) Trin ponciau'r chwarel mewn modd i sicrhau bod llystyfiant naturiol sy'n nodweddiadol o rywogaethau'r ardal yn ailsefydlu yno,
 - ii) Plannu coed a llwyni sydd yn nodweddiadol o'r ardal gyfagos,
 - iii) Creu cynefin ar gyfer ystlumod & ymlusgiad

The site shall be progressively restored. Within three years of the date of this permission or permanent cessation of operations hereby approved, whichever the sooner, restoration works shall commence in order to reinstate the site to the satisfaction of the mineral planning authority. Restoration shall include;

- i) The treatment of the quarry benches and/or exposed surfaces in a manner to secure effective

MAE'N BWYSIG EICH BOD YN DARLLEN Y NODIADAU ATODOL
IT IS IMPORTANT THAT YOU SHOULD READ THE ATTACHED NOTES



- re-establishment of natural vegetation of a type and species typical of the surrounding area,
- ii) The planting of trees and shrubs typical of the surrounding area in accordance with a detailed schedule of tree and shrub planting to be agreed beforehand in writing,
 - iii) The creation of a habitat for bats & reptiles.

18. Oni chytunwyd fel arall mewn ysgrifen, ni chaniateir i dorri neu symud coed a llwyni ac/neu clirio llystyfiant onid bod arolwg ac adroddiad ecolegol cyn-adeiladu wedi'i gynnal a'i chyflwyno er cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio mwynau, i ganfod presenoldeb adar ac ymlusgiad. Rhaid gweithredu ar unrhyw fesuriadau lliniaru a fuasai yn ofynnol o'r arolwg ac adroddiad gan gynnwys ffensiō cynefin/gwarchodaeth ac/neu ail-leoli rhywogaethau i safle amgen ac addas cyn cychwyn ar unrhyw waith peiranyddol yn ymwneud â'r datblygiad.

Unless otherwise agreed in writing, no cutting or removal of trees and shrubs and/or vegetation clearance shall take place unless a pre-construction survey and ecological report is undertaken and submitted for the approval of the mineral planning authority to ascertain the presence of birds and reptiles. Any mitigating measures as may be required by the survey and report shall thereafter be implemented including habitat/security fencing and/or relocation of species to an alternative and suitable site before the commencement of any engineering operations connected with the development.

19. Rhaid cymryd mesuriadau ar gyfer diogelu coed, llwyni a llystyfiant sy'n bodoli'n union gyfagos ag ardal y datblygiad rhag difrod yn unol â manylion manwl-gywir sydd i'w cytuno gyda'r awdurdod cynllunio mwynau cyn cychwyn y gwaith a ganiateir drwy hyn. Rhaid i'r modd o ddiogelu cynnwys;
- i) mesuriadau i arbed aflonyddu lefelau pridd o fewn ardal gwreiddio'r goeden neu lwyn,
 - ii) manylion am fanyleb a lleoliad unrhyw ffens ac unrhyw fesuriadau eraill sydd i'w cymryd i warchod unrhyw goeden a gedwir rhag difrod cyn neu'n ystod y datblygiad. Rhaid cadw'r ddarpariaeth gwarchod hyd nes bydd oll beiriannau a deunyddiau adeiladu wedi'u symud oddi ar y safle. Ni chaniateir i osod neu storio unrhyw beth o fewn ardal sydd wedi'i ddiogelu a ni chaniateir altro lefelau'r dddear o fewn yr ardaloedd yma heb ganiatâd ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio mwynau.

Measures shall be taken for the protection of trees, shrubs and vegetation which lie immediately adjacent to the development area from damage in accordance with precise details which shall be agreed with the mineral planning authority prior to the commencement of operations hereby permitted. The means of protection shall include:

- i) measures to prevent disturbance to, soil levels within the root spread of the tree or shrub,
- ii) details of the specification and position of fencing and of any other measure to be taken for the protection of any retained tree from damage before or during the course of development. The means of protection shall be retained until all plant equipment and construction materials have been removed from the site. Nothing shall be stored or placed in any area protected and the ground levels within these areas shall not be altered without the prior written agreement of the mineral planning authority.

20. Rhaid i oll goed a llwyni sydd i'w plannu yn unol â'r cynllun adfer dan amod 17 gael eu cynnal yn briodol a rhaid i unrhyw blanhigion sydd [o fewn 5 mlynedd o'u plannu] [ar unrhyw adeg yn ystod y datblygiad a chyfnod ôl-ofal] yn marw, eu symud, yn ymddangos wedi'i difrodi'n ddifrifol neu'n heintus, gael eu hailosod o fewn y tymor plannu dilynol gyda rhai eraill o faint a rhywogaeth tebyg, oni chytunwyd fel arall mewn ysgrifen gyda'r awdurdod cynllunio mwynau.

All Trees and shrubs planted in accordance with the scheme of restoration under condition 17 shall be properly maintained and any plants which [within five years of planting] [at any time during the

MAE'N BWYSIG EICH BOD YN DARLLEN Y NODIADAU ATODOL
IT IS IMPORTANT THAT YOU SHOULD READ THE ATTACHED NOTES



development and aftercare period] die, are removed or become seriously damaged or diseased shall be replaced in the next planting season with others of a similar size and species, unless otherwise agreed in writing with the mineral planning authority.

21. Oni chytunwyd fel arall mewn ysgrifen gyda'r awdurdod cynllunio mwynau, rhaid i oll lystyfiant, swbstrad a haenau organig sydd wedi'u stripio o ardal gwaith y caniatâd gael eu storio wedi hynny mewn lleoliadau pwrpasol. Wedi codi a ffurfio'r tomenni storio rhaid mesur y cyfanswm a hysbysu'r awdurdod cynllunio mwynau o'r mesuriadau a lleoliad y tomenni.

Unless otherwise agreed in writing with the mineral planning authority, all vegetation, substrate and organic layers stripped from the permitted area of working shall thereafter be stored in areas set aside for that purpose. After stripping and formation of storage heaps the quantities shall be measured and the volumes and locations made known to the mineral planning authority.

22. Dylai holl lystyfiant, swbstrad a'r haenau organig wedi'i stripio a'i storio yn unol â'r amod uchod gael ei ddefnyddio mewn gwaith adfer ac ni ddylid symud fath ddeunyddiau oddi ar y safle heb ganiatâd blaenorol ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio mwynau.

All vegetation, substrate and organic layers stripped and stored in accordance with the above condition shall be employed in works of restoration and no such materials shall be removed from the site without the prior written permission of the mineral planning authority.

23. Oni chytunir fel arall mewn ysgrifen, cyflwynir manylion lleoliad a manylebion unrhyw lifoleuadau er cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio mwynau cyn eu gosod. Byddir yn cysgodi'r holl lifoleuadau mewn modd i leihau i'r eithaf y golau a wasgerir at i fynnu.

Unless otherwise agreed in writing, details of the location and specification of any floodlights shall be submitted for the approval of the mineral planning authority prior to their installation. All floodlights in existence as a consequence of this permission shall be shielded in such a manner as to cause minimum upward light scatter.

24. Yn achos taro ar ddŵr daear yn ystod cloddio am fwynau, rhaid cyflwyno er cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio mwynau, Asesiad Effaith Hydroddaeareg ar gyfer gweithio islaw'r tabl ddŵr, gydag unrhyw liniariad yn cael ei weithredu wedi hynny yn unol â chynllun i'w gytuno o flaen llaw mewn ysgrifen.

In the event of any groundwater being encountered during the extraction of minerals, a Hydrogeological Impact Appraisal (HIA) for sub water table workings shall be submitted for the approval of the mineral planning authority, with any mitigation thereafter implemented in accordance with a scheme to be agreed beforehand in writing.

Y rhesymau am ddyfarniad y Cyngor i ganiatáu y datblygiad yn ddarostyngedig i'r amodau a nodwyd eisoes ydyw:

MAE'N BWYSIG EICH BOD YN DARLLEN Y NODIADAU ATODOL
IT IS IMPORTANT THAT YOU SHOULD READ THE ATTACHED NOTES



The reasons for the Council's decision to grant permission for the development subject to compliance with the conditions specified are:

1. Er budd mwynderau'r ardal ac i sicrhau bod y safle'n datblygu'n gywir
In the interests of the amenity of the area and to secure the proper development of the site
2. Er budd mwynderau gweledol yr ardal
In the interests of the visual amenities of the area
3. Er budd mwynderau gweledol yr ardal
In the interests of the visual amenities of the area
4. Er lles mwynder yr ardal
In the interests of the amenity of the area
5. Er budd mwynderau gweledol yr ardal ac i sicrhau bod y safle'n datblygu'n gywir
In the interests of the visual amenities of the area and to secure the proper development of the site
6. Er budd mwynderau trigolion lleol
In the interests of the amenity of local residents
7. Er lles diogelwch ar y briffordd a mwynder trigolion lleol
In the interests of highway safety and the amenity of local residents
8. Er lles diogelwch ar y briffordd
In the interests of highway safety
9. Er budd mwynderau trigolion lleol
In the interests of the amenity of local residents
10. Er budd mwynderau trigolion lleol
In the interests of the amenity of local residents
11. Er budd mwynderau trigolion lleol
In the interests of the amenity of local residents
12. Er budd mwynderau trigolion lleol
In the interests of the amenity of local residents
13. Er budd mwynderau trigolion lleol
In the interests of the amenity of local residents

**MAE'N BWYSIG EICH BOD YN DARLLEN Y NODIADAU ATODOL
IT IS IMPORTANT THAT YOU SHOULD READ THE ATTACHED NOTES**



14. I sicrhau datblygiad priodol y safle
To secure the proper development of the site
15. Er budd mwynderau gweledol yr ardal ac i sicrhau bod y safle'n datblygu'n gywir
In the interests of the visual amenities of the area and to secure the proper development of the site
16. Sicrhau bod y safle'n cael ei adfer yn gywir er budd mwynderau gweledol a bioamrywiaeth yr ardal
To secure the proper restoration of the site in the interests of visual amenities and biodiversity of the area
17. Sicrhau bod y safle'n cael ei adfer yn gywir er budd mwynderau gweledol a bioamrywiaeth yr ardal
To secure the proper restoration of the site in the interests of visual amenities and biodiversity of the area
18. Er lles bioamrywiaeth yr ardal
In the interests of the biodiversity of the area
19. Er budd mwynderau gweledol a bioamrywiaeth yr ardal
In the interests of visual amenities and the biodiversity of the area
20. Sicrhau bod y safle'n cael ei adfer yn gywir ac er lles bioamrywiaeth yr ardal
To secure the proper restoration of the site and in the interests of the biodiversity of the area
21. Sicrhau bod y safle'n cael ei adfer yn gywir ac er lles bioamrywiaeth yr ardal
To secure the proper restoration of the site and in the interests of the biodiversity of the area
22. Sicrhau bod y safle'n cael ei adfer yn gywir ac er lles bioamrywiaeth yr ardal
To secure the proper restoration of the site and in the interests of the biodiversity of the area
23. Er budd mwynderau gweledol a bioamrywiaeth yr ardal
In the interests of visual amenity and the biodiversity of the area
24. Er budd diogelwch yr amgylchedd
In the interests of environmental protection

Wrth ystyried y cais yma roedd yr Awdurdod Cynllunio Mwynau o'r farn bod y polisiau a rhestrir isod yn berthnasol:

- Polisiau ac egwyddorion cyffredinol Nodyn Cyngor Technegol (TAN 5), (TAN 11), (TAN 18), Llywodraeth Cymru,
- Polisiau ac egwyddorion cyffredinol Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: Agregau 2004, Llywodraeth Cymru,
- Polisi Cynllunio Cymru Chwefror 2011 Llywodraeth Cymru,
- Polisi Cynllunio Mwynau Cymru 2000, Llywodraeth Cymru,
- Canllawiau Dylunio a Thirlunio Gwynedd 2004

MAE'N BWYSIG EICH BOD YN DARLLEN Y NODIADAU ATODOL
IT IS IMPORTANT THAT YOU SHOULD READ THE ATTACHED NOTES



- Polisiau strategol 2, 3, 7, 16 a Polisiau B7, B12, B14, B15, B17, B21, B23, B32, B33, B34, C9, C10, C12, C13, C14, C22 & CH33 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2001 – 2016.

The Mineral Planning Authority is of the opinion that the policies listed below were relevant in the consideration of this application:

- Policies and general principles Technical Advice Notes (TAN 5), (TAN 11), (TAN 18), Welsh Government,
- Policies and general principles Minerals Technical Advice Note (Wales) 1: Aggregates 2004 Welsh Government,
- Planning Policy Wales Feb 2011, Welsh Government,
- Minerals Planning Policy Wales 2000, Welsh Government,
- Gwynedd Design and Landscaping Guidelines 2004
- Strategic Policy 2, 3, 7, 16 and Policies B7, B12, B14, B15, B17, B21, B23, B32, B33, B34, C9, C10, C12, C13, C14, C22 & CH33 of The Gwynedd Unitary Development Plan 2001 – 2016.

Nodyn i'r Ymgeisydd / Note to Applicant

Byddwch cystal â nodi'r ymateb i ymgynghoriad ynghlwm derbyniwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd (Atodiad 1) a dylid eu cysylltu'n uniongyrchol ran rheolaethau amgylcheddol a gweithredol penodol a darpariaeth gwasanaeth o fewn eu hawdurdod.

Please note the attached consultation response received from the Environment Agency (Appendix 1) who should be contacted direct in respect of the specific environmental and operational controls and the provision of utility within their remit.

**MAE'N BWYSIG EICH BOD YN DARLLEN Y NODIADAU ATODOL
IT IS IMPORTANT THAT YOU SHOULD READ THE ATTACHED NOTES**